Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu

Rhoi gwybodaeth i chi yn ystod y broses o weithredu Deddf Trwyddedu 2003. RHAGFYR 2004

Sylwadau am gyfnod y Nadolig...

Yn ystod gwyliau prysur y Nadolig, cymharwch y drefn a fu yn ystod y Nadolig yn y gorffennol, a'r newid a fwriedir ar gyfer y dyfodol. Flwyddyn nesaf fe fyddwn yn dyst i'r newid mwyaf yn ein diwydiant hamdden ers 40 o flynyddoedd, a dylai busnesau a threfnwyr digwyddiadau eisoes fod yn meddwl sut y gall y drefn drwyddedu newydd fod o fantais iddynt. I helpu, mae Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu yn cynnig rhai sylwadau ar dymor y Nadolig...

Agor noswyl Nadolig

Os bydd gennych, ar y dydd cyntaf a enwyd, dystysgrif oriau arbennig mewn grym ar gyfer eich mangre neu os bydd gennych orchymyn eithrio mewn perthynas â'ch mangre sy'n berthnasol gyffredinol ac sydd mewn grym, bydd eich cais i newid eich trwydded bresennol gan ynadon yn cynnwys y caniatâd mewn perthynas â chyflenwi alcohol yn rhinwedd yr awdurdodiadau hynny. Er hynny, os bydd eich awdurdodiad yn erthnasol yn unig i ddyddiadau penodol bydd angen i chi ystyried prun ai a ydych chi am wneud cais ar yr un pryd am oriau hirach i gyfateb i'r arfer yn y gorffennol trwy gael amrywiad wrth wneud eich cais i newid. Felly mae angen i chi feddwl pa batrwm yr hoffech, er enghraifft ar Noswyl Nadolig, ar gyfer bob blwyddyn i ddod.

Agor Nos Galan

Wrth addasu ar-drwydded bresennol gan ynadon yn drwydded mangre newydd dan 'hawliau taid' yn ystod y cyfnod trosiannol byddwch yn awtomatig yn cael estyniad ar oriau agor ar Nos Galan, yn dilyn Ilunio Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Trwyddedu Achlysur Arbennig) 2002. Mae'r gorchymyn hwn yn ymestyn eich 'oriau a ganiateir' i gynnwys cyfnod o 36 awr rhwng 11am ar Nos Galan a 11pm ar Ddiwrnod Flwyddyn Newydd bob blwyddyn.

Adloniant y Nadolig

Os yw eich parti Nadolig neu Flwyddyn Newydd yn dibynnu ar 'ganiatâd achlysurol' neu 'drwydded achlysurol' ni fydd y caniatâd hwn yn trosglwyddo'n awtomatig i'r drwydded newydd ac mae angen i chi ystyried a allwch chi gynnal yr un parti dan awdurdodiad hysbysiad digwyddiad dros dro, gyda'i gyfyngiadau cysylltiedig, neu a oes angen i chi ystyried hyn mewn trwydded mangre newydd.

Hefyd ystyriwch y math o adloniant a gynhelir gennych dros wyliau'r gwyliau. Ni fydd y datgymhwysiad dan y gyfraith bresennol am yr angen i gael trwydded adloniant gyhoeddus mewn rhai sefyllfaoedd, fel y rheol 'dau yn y bar', yn parhau dan y drefn newydd. Bydd angen i fangre heb drwyddedau adloniant cyhoeddus ar hyn o bryd amrywio eu trwydded mangre os ydynt yn dymuno parhau i ddarparu perfformiadau o'r fath Nadolig nesaf.

Canu carolau

Ni fyddai angen trwydded ar bobl sy'n canu carolau o ddrws i ddrws, neu sy'n penderfynu ar hap i ganu mewn lle arbennig, neu hyd yn oed yn cyrraedd yn annisgwyl mewn tafarn ac yn canu, yn union fel na fyddai pobl sy'n yfed mewn tŷ tafarn ac sy'n sydyn yn dechrau canu carolau angen trwydded. Er hynny, os bydd busnesau mewn ardal siopa, er enghraifft yn trefnu i gael grŵp o gantorion i ganu carolau yna byddai hynny'n gyfystyr â threfnu unrhyw berfformiad o gerddoriaeth fyw a byddai angen trwydded mangre neu hysbysiad digwyddiad dros dro ar ei gyfer.

Raffl a Tombola

Dan y gyfraith bresennol, caiff potel o win a gynigir fel gwobr tombola mewn ffair Nadolig ei hystyried fel gwerthiant ac mae'n ofynnol cael trwydded. Er hynny, ar gais yr Ysgrifennydd Cartref, ni orfodir y gyfraith hon gan amlaf, mae adran 175 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn diystyru'r anghysondeb hwn pan gyflawnir rhai amodau.

Hoffai Tîm Trwyddedu'r Adran dros Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gymryd y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Ilawen iawn a Blwyddyn Newydd lwyddiannus i ddarllenwyr Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu.

Bydd pob Cyflwyno'r Ddeddf Trwyddedu yn cynnwys 'Cwestiynau Cyffredin'. Yn y rhifyn hwn byddwn yn trafod materion trosiannol a materion yn ymwneud â ffioedd.

C. Beth alla i ei newid dan 'hawliau taid'?

A. Mae Atodlen 8 o Ddeddf 2003 yn rhestru'r holl 'drwyddedau presennol a thystysgrifau y gellir eu newid yn ystod y cyfnod trosiannol. Er hynny, mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol yn unig i'r trwyddedau presennol a'r tystysgrifau hynny sy'n dod i rym ar 7 Chwefror 2005. Ni ellir newid unrhyw drwyddedau dan yr 'hen' system neu amrywiadau i drwyddedau presennol a roddwyd ar ôl 7 Ionawr.

C. Beth fydd yn digwydd os na fydd ffurflen gais yn barod ar y 7fed o Chwefror?

A. Peidiwch â phoeni. Gall deiliaid pob 'trwydded bresennol' wneud cais i newid eu trwyddedau presennol unrhyw adeg rhwng 7fed Chwefror – 6ed Awst 2005. Mae'r un peth yn wir yn achos clybiau cofrestredig. Gallant wneud cais i newid eu tystysgrifau cofrestru i fod yn dystysgrifau mangre clwb. Mae hyn yn rhoi cyfnod o chwe mis i wneud eich cais.

C. Os bydda i'n ychwanegu person arall at fy nhrwydded ynadon ar ôl 7fed Chwefror, a fydd angen iddynt gael cymhwyster trwydded bersonol newydd?

A. Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer deiliaid trwyddedau gan ynadon fel y gallant wneud cais am drwydded bersonol heb fod angen meddu ar gymhwyster trwyddedu os byddant yn cyflwyno eu cais rhwng 7fed Chwefror a 6ed Awst 2005. Felly os bydd deiliad trwydded gan ynadon yn newid yn y cyfnod hwnnw neu os ychwanegir deiliad arall ar y drwydded ynadon, yna gallant wneud cais yn y cyfnod hwnnw'n unig am drwydded bersonol heb fod angen y cymhwyster.

C. Pa werth ardrethol annomestig (NDRV) fydd yn berthnasol pan fydda i'n newid trwyddedau presennol a fy nhystysgrifau, wrth i'r trethi newid yn Ebrill 2005?

A. Ein bwriad yw y bydd yr NDRV sy'n berthnasol adeg eich cais yn sail i ffi'r cais.

C. Beth fydd yn digwydd i dystysgrif fy mhlant pan fydda i'n newid i'r drwydded mangre newydd?

A. Dylai tystysgrif eich plant fod ynghlwm yn eich cais ar gyfer newid eich trwydded gan ynadon, a bydd yn cael ei newid yn awtomatig. Yn dilyn yr ail ddydd a enwyd, bydd tystysgrifau plant yn cael eu diddymu gan y Ddeddf. Ond os bydd tystysgrif plentyn yn bodoli ac nad ydych bellach yn dymuno i'w ddarpariaethau fod yn berthnasol, yna bydd angen i chi wneud cais i amrywio eich trwydded pan fyddwch chi'n gwneud cais i newid.

C. A fydd fy awdurdod lleol yn cyflwyno strategaeth fesul cyfnod ar gyfer gwneud ceisiadau?

A. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylai awdurdodau trwyddedu, awdurdodau cyfrifol a chynrychiolwyr deiliaid trwyddedau presennol a thystysgrifau cofrestru geisio gweithio mewn partneriaeth. Gallai hyn gynnwys cytuno ar drefniadau gyda nifer o fusnesau sy'n cael eu heffeithio gan geisiadau fesul cyfnod drwy gydol chwe mis cyntaf y cyfnod trosiannol er mwyn osgoi gormodedd o geisiadau. Ond, ni all awdurdod trwyddedu fynnu eich bod yn gwneud cais ar adeg benodol, a rhaid i bob cais i newid rhwng 7fed Chwefror a 7ed Awst 2005 gael eu prosesu.

Un awdurdod trwyddedu sy'n mabwysiadu strategaeth fesul cyfnod yw Cyngor Dinas Westminster. Yn ystod y cyfnod trosiannol, mae Westminster yn disgwyl prosesu dros 3,500 o geisiadau am drwyddedu mangre a dros 4,000 o geisiadau am drwydded bersonol. Er mwyn sicrhau bod y broses yn digwydd mor rhwydd â phosibl, mae Westminster yn bwriadu derbyn y ceisiadau fesul cyfnodau dros gyfnod o chwe mis.

Mae trwyddedai wedi'u pennu ar gyfer un o bedwar cyfnod a gwahoddir hwy i gyflwyno eu cais yn ystod y cyfnod perthnasol. Bydd ymgeiswyr yn gallu mynychu sioeau teithiol sydd wedi'u hanelu at ardaloedd penodol sy'n egluro'r prosesau dan sylw ac sy'n fodd iddynt allu mynd at swyddogion arbenigol a all roi cymorth a chyngor iddynt ynglŷn â gwneud eu cais.

I gael mwy o wybodaeth am strategaeth fesul cyfnod Westminster, ewch i: www.westminster.gov.uk/licensees

I gael mwy o wybodaeth am faterion trosiannol edrychwch ar Atodlen 8 o'r Ddeddf a Phennod 13 o'r Canllawiau.

AMSERLEN ARFAETHEDIG AR GYFER GWEITHREDU

10fed Gorffennaf 2003	15fed Medi i 10fed Tachwedd 2004	4ed Tachwedd i 23ain Rhagfyr 2004	7fed Ionawr 2005	7fed Chwefror 2005	Mawrth 2005	6ed Awst 2005	Tachwedd 2005
Cafwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trwyddedu 2003.	DCMS yn ymgynghori ar reoliadau drafft (ac eithrio ffioedd).	DCMS yn ymgynghori ar ffioedd.	Cychwyn 'cyfnod tair blynedd'. Rhaid i Awdurdodau Trwyddedu fod wedi cyhoeddi eu datganiad polisi trwyddedu erbyn y dyddiad hwn.	Y Dydd a Enwyd – 1af. Awdurdodau Trwyddedu'n dechrau prosesu ceisiadau.	Ymgynghori ar reoliadau drafft ar weithgareddau dros dro a ganiateir.	Dyddiad olaf y gall ymgeiswyr/clybiau arfer eu hawl i wneud cais i newid trwyddedau presennol yn drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb.	Y Dydd y Enwyd – 2il. Hen ddeddfau trwyddedu'n dod i ben. Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb yn dod i rym.

Strategaeth Lleihau Niwed yn sgil Alcohol

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn rhan allweddol o strategaeth y Llywodraeth i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud ag alcohol. Bydd yn helpu i leihau problemau o anhrefn a tharfu sy'n gysylltiedig ag amseroedd cau penodedig cyffredinol. Er hynny, ni all hyn ar ei ben ei hun ddelio â'r holl broblemau sy'n digwydd yn sgil camddefnyddio alcohol. Nod 'Strategaeth Lleihau Niwed yn sgil Alcohol ar gyfer Lloegr' yw lleihau'r niwed a achosir yn sgil camddefnyddio alcohol trwy roi'r ffocws ar feysydd allweddol ar gyfer ymyrraeth. Mae'r strategaeth a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yn amlinellu cynlluniau'r Llywodraeth i weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd a'r heddlu, y diwydiant diodydd a chymunedau er mwyn:

- mynd i'r afael ag anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yng nghanol trefi a dinasoedd;
- gwella'r driniaeth a'r cymorth i bobl â phroblemau alcohol;
- datblygu cynllun cyfrifoldeb cymdeithasol gwirfoddol gyda'r diwydiant alcohol; a
- darparu gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr am y peryglon o gamddefnyddio alcohol.

Ers cyhoeddi'r Strategaeth ym mis Mawrth, mae nifer o argymhellion wedi'u cyflwyno. Mae'r Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd a'r DCMS yn gweithio'n glos gyda'r diwydiant er mwyn llunio cod ymarfer cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd pwyslais sylweddol yn y broses ddrafftio ar berchnogaeth gan ddiwydiant. Eisoes mae sawl enghraifft o arfer da o fewn y diwydiant y mae angen eu dwyn ynghyd a'u hefelychu drwy god cenedlaethol tryloyw y gellir ei orfodi.

Hefyd bydd y Llywodraeth yn ymgynghori gyda diwydiant ar yr opsiynau o ran cyfraniadau ariannol gwirfoddol tuag at y niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a argymhellir yn y Strategaeth. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i wneud y dull gweithredu gwirfoddol gan ddiwydiant yn waith cyfrifoldeb cymdeithasol. Wedi dweud hynny, bydd llwyddiant y dull gweithredu gwirfoddol yn cael ei werthuso yn fuan yn y senedd nesaf, ac ystyrir mesurau eraill os bydd angen.

Mae'r rheolau presennol ar gyfer hysbysebu alcohol ar y teledu hefyd wedi'u cryfhau'n sylweddol mewn sawl maes, yn arbennig i amddiffyn y rhai dan 18 oed. Byddant yn dod i rym o 1 Ionawr 2005.

Gellir llwytho i lawr Strategaeth Lleihau Niwed yn sgil Alcohol ar gyfer Lloegr o wefan Uned Strategaeth y Prif Weinidog: www.strategy.gov.uk

Ymgyrch y Nadolig

Yn ystod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd bydd ail ran yr ymgyrch a gydlynir gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref â swyddogion safonau masnach er mwyn mynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol ac anhrefn. Wedi llwyddiant ymgyrch yr haf, gwahoddir pob heddlu yng Nghymru a Lloegr i gymryd rhan yn yr ail ran, sy'n cychwyn ar 15 Rhagfyr 2004 tan 1 Ionawr 2005.

Yn ystod ymgyrch yr haf bu gweithgareddau gorfodaeth parhaus a chydlynol yn llwyddiant. Dangoswyd yn glir na fyddai gwerthu ac yfed alcohol yn anghyfreithlon yn cael ei oddef a chafwyd darlun llawer cliriach o'r problemau sy'n gysylltiedig ag anhrefn yn sgil alcohol ac yfed dan oed. Er enghraifft, yn sgil ymweliadau dirybudd gan swyddogion safonau masnach cafwyd data gwerthfawr ynglŷn â pha mor rhwydd yw hi i rai dan 18 oed brynu alcohol.

Mae partneriaid yn awr yn benderfynol i adeiladu ar yr arfer da a ddatblygwyd yn ystod yr haf a'r camau a gymerwyd yn ei sgil. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cartref at gwmnïau oedd wedi troseddu fwy nac unwaith yn ystod yr ymgyrch am werthu alcohol yn anghyfreithlon a gofynnwyd iddynt beth oeddynt yn bwriadu ei wneud ynghylch gwerthu alcohol mewn modd anghyfrifol ac anghyfreithlon. Yn ogystal â hyn ehangwyd cwmpas hysbysiadau cosb sefydlog i gynnwys gwerthu, prynu ac yfed alcohol i rai dan 18 oed a gan rai dan 18 oed.

Yn ychwanegol, gofynnwyd i Gyngor Canllawiau Dedfrydu (SGC) ystyried a yw'r gwahanol ddirwyon yn cael eu defnyddio'n briodol yn erbyn sefydliadau a erlynir am werthu alcohol yn anghyfreithlon ac a ddylai 'bod yn feddw' gael ei newid i ffactor sy'n gwaethygu, yn hytrach na ffactor sy'n lliniaru, wrth ddedfrydu rhai am droseddau gwrthgymdeithasol.

I gael mwy o wybodaeth am Ymgyrch Gorfodaeth Camddefnyddio Alcohol ewch i: www.policereform.gov.uk/psu

Ymateb Bill i'r newidiadau

Mae'r Kings Arms yn dafarn draddodiadol, wedi'i lleoli yn un o'r strydoedd cefn yn y Bwrdeistref, ger London Bridge. Aethom i weld y trwyddedai, Bill Sharp, i gael gair ag ef am y modd y mae'n paratoi ar gyfer y newidiadau.

Mae Bill sy'n masnachu yn un o fwrdeistrefi hynaf Llundain, yn eithriadol o gadarnhaol am y newidiadau sydd ar fin digwydd. Yn ei farn ef dylid bod wedi dileu'r 'deddfau hynafol' hyn flynyddoedd yn ôl. "Mae'n rhywbeth mae'r cyhoedd yn dymuno ei weld ac yn fy marn i dyma'r peth gorau sydd wedi digwydd erioed i'r diwydiant. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i bobl wneud y gorau o'u busnesau, dan eu rheolaeth eu hunain".

Ym marn Bil mae llawer o gyhoeddusrwydd negyddol wedi bod ynglŷn â'r ddadl am y newidiadau ac nid yw hynny'n adlewyrchu realiti y rhan fwyaf o fusnesau. "Bydd cyfle gan ambell fangre i agor yn hwyr bob nos oherwydd ble maent wedi'u lleoli neu oherwydd y galw gan gwsmeriaid, ond ni fydd hynny'n digwydd ym mhob man. Dydyn ni ddim am droi'n wlad sy'n canu ac yn dawnsio, 24 awr y dydd, a phe bai pobl yn ceisio gwneud hynny yna mae mesurau i atal hynny rhag digwydd, fel y dylai fod".

Fel sawl trwyddedai, mae Bill yn hynod o gadarnhaol am yr hyblygrwydd o ran oriau . "Dyma un o'r pethau gorau ynglŷn â'r Ddeddf. Mae fy nghwsmeriaid bob amser wedi bod o blaid oriau hirach. Rydym ni'n wlad sy'n gwneud llawer i ddenu pobl i'n tafarndai, ac yna unwaith maent yno rydym ni'n eu hel allan wedyn, oherwydd y gyfraith, a dyna'r ddelwedd ohonom ledled y byd. Ond alla i ddim siarad ar ran pawb – gallai rhai pobl ddweud mai'r manteision i gerddoriaeth fyw yw'r peth gorau sydd wedi digwydd".

Mae Bill yn cymryd agwedd rhagweithiol iawn tuag at y newidiadau ac mae'n bwriadu gweld beth yw dyheadau ei gymuned leol cyn gwneud cais i amrywio ei drwydded y flwyddyn nesaf. "Mae'r heddlu'n gweithio'n glos iawn gyda'r trwyddedai, ac mae trigolion lleol hefyd â diddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd. Pan fydda i'n penderfynu pa amrywiadau bydda i eu heisiau, fe ga i air gyda'r trigolion lleol i weld a ydynt yn debygol o wrthwynebu. Efallai bydda i'n gallu lliniaru eu hofnau ymlaen llawn yn hytrach na'u bod yn gwrthwynebu fy nghynlluniau. Yn fy marn i mae'n gyfrifoldeb ar drwyddedai i siarad â phobl leol ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym ni yn yr Urdd (Prif Dafarnwyr) yn ei argymell i bawb. Os ystyrir y Ddeddf yn yr ysbryd cywir, bydd lle canolog i drigolion."

Mae Bill yn dal i ystyried pa newidiadau yr hoffai eu gwneud, ond mae'n cynnig cyngor i drwyddedai eraill sy'n dal i ystyried eu hopsiynau. " Prun ai ydych chi'n rhydd-ddeiliad, yn drwyddedai neu'n denant, os ydych chi'n cael eich temtio i newid, dylech yn gyntaf bob amser ystyried y gwerth a ychwanegir at eich mangre os byddwch yn amrywio eich trwydded. Bydd yr hyblygrwydd yn eich busnes yn ystyriaeth bwysig. Fydd neb yn prynu busnes â chyfleusterau cyfyngedig pan allan nhw fynd drws nesaf lle mae sawl caniatâd ar gael. Efallai nad yw'n rhywbeth y byddwch chi'n manteisio arno, ond pe byddai'r busnes neu'r mangre'n manteisio o gael mwy o ddewis, yna byddai hynny o fudd".

Mae hefyd yn credu bod cynnig bwyd cynnes yn bwysig ar gyfer y rhai sydd ar agor yn hwyrach. "Os ydych chi ar agor tan 1pm dylech gynnig rhywbeth sylweddol yn hwyrach y nos, yn hytrach na bod pobl yn mynd adref yn teimlo'n sâl. Rwy'n credu y dylai pawb ystyried hyn os yw'r mangre'n ei ganiatáu."

Ond y cyngor pwysicaf y byddai Bill yn ei roi i'w gyd-drwyddedai fyddai "Os nad ydych chi'n siŵr, gofynnwch am gyngor priodol. Y cam cyntaf fyddai mynd at eich cymdeithas masnach."

Barn Bill am ymgynghori:

"Rwy wedi cymryd rhan yn ymgynghoriad y DCMS ar reoliadau drwy Urdd y Prif Dafarnwyr, a hefyd drwy grŵp cynghori'r DCMS ar drwyddedu yr wyf yn aelod ohono. Byddaf hefyd yn cymryd rhan mewn ymgynghori ar lefelau ffioedd. Rwyf yn cymeradwyo dull Dartford i'r ymgynghori ar eu datganiad polisi trwyddedu. Fe aethant ati i wahodd trwyddedai i gyfarfod er mwyn trafod y newidiadau a chafodd hyn dderbyniad da dan y diwydiant."

Barn Bill am y ffurflenni drafft:

"Rwy'n eithaf hapus â'r ffurflenni fel y maent ac ymhen amser cawn weld pa mor briodol ydynt. Maent yn gymharol hawdd i'w llenwi. Maent yn gofyn am fwy o wybodaeth nag a dybiwyd yn wreiddiol, ond mae'n rhaid bod gan y Llywodraeth ei rhesymau dros hynny."

Barn Bill am y cynlluniau:

"Mae fy nghwmni lesio wedi trefnu bod cynlluniau newydd yn cael eu paratoi ar gyfer pob mangre, felly nid oes raid dibynnu ar hen gynlluniau. Maent wedi gwneud hyn yn unswydd ar gyfer y drefn newydd. Mae hwn yn wasanaeth da maent wedi'i baratoi, a hynny heb unrhyw gost i mi."

Barn Bill am gymwysterau trwydded bersonol:

"Rwy'n credu bod y cysyniad o drwydded bersonol yn dda. Mae'n golygu y bydd trwyddedai'n cael eu cydnabod am eu gwybodaeth a'u sgiliau ac y byddant yn gallu symud o'r naill fangre i'r llall yn sgil y cymwysterau hynny. Bydd hefyd yn codi safonau, ac mae hynny'n rhywbeth rydym am ei weld yn ddi-os. Mae'n dda o ran safonau'r unigolyn hefyd. Rwy'n ystyried anfon un o fy staff sydd wedi'i hyfforddi i gael y cymhwyster trwydded bersonol."

Mae Bill Sharp yn drwyddedai yn nhafarn y Kings Arms yn y Bwrdeistref; mae'n aelod o Urdd y Prif Dafarnwyr, ac yn aelod o Grŵp Cynghori'r DCMS ar Drwyddedu.

Colofn Caborn

Mae cydweithwyr yn y Senedd wedi bod yn ysgrifennu ataf i ddweud bod clybiau chwaraeon a hamdden gwirfoddol yn poeni y bydd y ffioedd trwyddedu newydd yn cynyddu'r gost o redeg y clybiau.

Nid wyf yn credu y bydd y ffioedd yn ormodol ac rwy'n hyderus y gall clybiau gynnwys y costau yn eu ffioedd aelodaeth a defnyddwyr eraill. Byddai unrhyw ostyngiad mewn ffioedd trwyddedu i glybiau chwaraeon yn golygu y byddai'n rhaid i drethdalwyr neu awdurdodau lleol sybsideiddio'n uniongyrchol ddiodydd chwaraewyr pêl-droed a rygbi, a byddai hynny'n amhriodol. Mae'r Llywodraeth yn darparu cefnogaeth i glybiau mewn ffyrdd eraill.

Bydd diwygiad diweddar i Fesur Llywodraeth Leol yn rhoi rhyddhad trethi mandadol o 80% i Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol sydd wedi'u cofrestru, gwerth hyd at £10m y flwyddyn. Yn ogystal â hyn rydym wedi neilltuo £60m i'r Rhaglen Datblygu Clybiau Cymunedol er mwyn gwella cyfleusterau a chynyddu nifer y bobl leol sy'n cymryd rhan.

Mater arall sy'n dal i gael ei godi yw'r broblem o anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol. Rwy'n cydnabod mai lleiafrif bychan o fannau trwyddedig sy'n ymddwyn yn anghyfrifol ac rwy'n falch o ddeall bod mwy o fragdai a bariau wedi bod yn cefnu ar ymgyrchoedd anghyfrifol sy'n hybu diodydd, gan ychwanegu rhybuddion iechyd ar boteli a chynnig diodydd meddal am ddim i yrwyr.

Nid yw'n lles i unrhyw un ohonom weld delweddau dro ar ôl tro o drais ac ymosodiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar sgrin ein teledu, a dyma'n aml y portread a geir o ganol ein dinasoedd a'n trefi. Nid yw hyn yn dda i dwristiaeth, mae'n rhoi trwyddedai a'u staff mewn risg ac mae'n tanseilio'r holl waith da mae'r diwydiant yn ei gyfrannu tuag at y gymdeithas. Felly, ydym, rydym yn delio'n gadarn ag anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol ac nid wyf yn ymddiheuro am hynny.

Un ffordd y gallai'r diwydiant helpu fyddai trwy ddefnyddio hyblygrwydd y drefn newydd i gynnig cynnyrch mwy amrywiol a phrofiad i'r cwsmer nad yw'n seiliedig yn unig ar yfed – boed hynny'n gerddoriaeth, adloniant arall, neu fwyd yn hwyr y nos. Rwy'n mawr obeithio y bydd trwyddedai'n meddwl am hyn wrth ystyried eu ceisiadau yn y Flwyddyn Newydd.

Yn y cyfamser gobeithio y byddwch chi'n mwynhau Nadolig diogel.

Mân faterion

Mae amddiffyn plant rhag niwed yn un o'r pedwar amcan trwyddedu ac mae'n ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â thrwyddedu. Awdurdodau trwyddedu fydd yn penderfynu pa gorff neu gyrff i'w cydnabod fel "awdurdodau cyfrifol" i roi cyngor yn eu hardal.

Mewn nifer o ardaloedd awdurdod trwyddedu, disgwylir mai'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn plant neu'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol lleol fydd y rhain, neu'r 'Bwrdd Lleol Diogelu Plant' o bosibl yn y dyfodol.

Fel 'awdurdodau cyfrifol', bydd y cyrff hyn yn derbyn copïau o'r holl geisiadau i gael grantiau, amrywio ac adolygu trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb ac am ddatganiad dros dro, a byddant yn gallu cyflwyno sylwadau ynghylch effaith y cais ar amddiffyn plant rhag niwed. Bydd raid i ymgeiswyr nodi yn eu hatodlen weithredol y camau y bwriadant eu cymryd i hybu'r 'amcanion trwyddedu, gan gynnwys amddiffyn plant rhag niwed'.

Bydd rhai mangre a gweithgareddau mewn risg uwch nac eraill a disgwylir y bydd yr awdurdod cyfrifol yn ystyried a ddylid cyflwyno sylwadau'n seiliedig ar ryw fath o asesiad risg ai peidio. Mae adran 182 o'r Canllawiau i awdurdodau trwyddedu'n rhoi rhai enghreifftiau o weithgareddau perthnasol a phŵl enghreifftiol o amodau.

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) a Chydlynwyr Awdurdodau Lleol Gwasanaethau Rheoleiddio (LACoRS) yn lledaenu cyngor ymarferol am ddyletswyddau amddiffyn plant dan y Ddeddf drwy ddogfen o ganllawiau, y gellir ei llwytho i lawr o wefan LACoRS neu ei harchebu drwy ffonio: **020 7840 7200**.

Prif sefydliadau

- Cydlynwyr Awdurdodau Lleol Gwasanaethau Rheoleiddio: www.lacors.gov.uk
  Gellir e-bostio enghreifftiau o arfer da i [katherine.smith@lacors.gov.uk]
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol : www.adss.org.uk
- Mae'r Adran Addysg a Sgiliau'n darparu gwybodaeth am Bwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant: www.dfes.gov.uk/acpc

Y llys a'r Ddeddf

Tra bod y Ddeddf yn trosglwyddo trwyddedu alcohol o ynadon trwyddedu i awdurdodau trwyddedu, mae llysoedd ynadon yn dal i chwarae rôl bwysig iawn.

Yn ystod y cyfnod trosiannol, bydd yr 'hen' systemau trwyddedu a'r rhai 'newydd' yn cydredeg yn effeithiol ochr yn ochr. Gan na fydd trwyddedau mangre newydd a thystysgrifau mangre clwb yn dod i rym tan yr ail ddydd a enwyd, bydd trwyddedau presennol a chaniatâd a roddwyd gan ynadon trwyddedu a llysoedd ynadon yn parhau i fod mewn grym. Hefyd yr ynadon fydd y llys apêl dan y system newydd ar gyfer partïon sydd wedi'u tramgwyddo gan benderfyniadau a wnaed gan yr awdurdod trwyddedu newydd.

Mae hyn yn berthnasol yn y cyfnod trosiannol er na fydd awdurdodiadau hyd yma mewn grym.

Yn dilyn yr ail ddydd a enwyd, bydd ynadon yn cadw eu rôl fel llys apêl. Hefyd bydd ynadon yn cadw eu hawdurdod presennol, wedi'i ymestyn, i wneud gorchmynion cau mewn ardaloedd lle mae anhrefn neu niwsans, neu sy'n debygol o'i gael, a bydd pŵer newydd i atal gwerthu alcohol ar drenau hefyd yn dod i rym.

Mae'r Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA) yn cadeirio 'Gweithgor Trwyddedu Trosiannol' er mwyn delio ag agweddau o'r Ddeddf Trwyddedu sy'n effeithio ar awdurdodau trwyddedu a llysoedd ynadon. Mae aelodau o'r grŵp yn cynnwys y DCA, Cymdeithas Ynadon y Llys a'r Ddeddf (MA), Cymdeithas Clercod Ynadon (JCS), Cymdeithas Prif Weithredwyr Ynadon a'r DCMS.

Mae'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, gyda chymorth y JCS a'r MA hefyd yn paratoi pecyn hyfforddiant 'ynadon' am eu rôl a phwerau apêl newydd. Mae'r pecyn yn argymell sefydlu panel ar y fainc i ddelio ag apeliadau trwyddedu, er mwyn sicrhau cysondeb. Hefyd mae'r JCS yn darparu cyngor am geisiadau am drwyddedau achlysurol, caniatâd achlysurol a gorchmynion eithrio arbennig ar gyfer dyddiadau ar ôl y 7fed Tachwedd 2005, nes bydd yr ail ddydd a enwyd yn wybyddus. Bydd unrhyw apêl dan yr 'hen' system apelio yn cael sylw gan Lys y Goron.

I gael mwy o wybodaeth am apeliadau edrychwch ym mhennod 10 o'r Canllawiau ac Adran 181 ac Atodlen 5 o'r Ddeddf. Section 181 and Schedule 5 of the Act.

Neuaddau Pentref

Mae Action with Communities in Rural England (ACRE), yn gweithio i helpu i sicrhau bod y 9000 o neuaddau pentref a chymuned yn gallu cynnal pob math o weithgareddau diwylliannol unwaith bydd Deddf Trwyddedu 2003 yn dod i rym.

Mae'r rhan fwyaf o neuaddau pentref yn elusennau cofrestredig ac maent yn chwarae rhan allweddol yn ein diwylliant cyfoethog o gerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr. Tanlinellwyd hyn, er enghraifft yn arolwg diweddar y Lywodraeth o gerddoriaeth fyw oedd yn dangos bod 68% o neuaddau wedi cynnal cerddoriaeth fyw yn y 12 mis diwethaf.

Meddai Deborah Clarke, cynghorydd ACRE ar neuaddau pentref "Neuaddau pentref yw niwclews ein cymunedau gwledig. I gydnabod hyn bydd neuaddau pentref, cymuned ac eglwys ac adeiladau tebyg eraill yn cael eu heithrio rhag talu ffi am drwyddedau mangre sy'n berthnasol i awdurdodi darparu adloniant wedi ei reoleiddio."

Bydd gan neuaddau pentref hefyd y cyfle i wneud cais am drwyddedau mangre sy'n awdurdodi pob gweithgaredd trwyddedadwy, gan gynnwys gwerthu alcohol. Bydd hyn yn galluogi Neuaddau Pentref i ehangu'r mathau o ddigwyddiadau y gellir eu cynnal mewn neuadd heb fod angen caniatâd ar wahân. Hefyd bydd gan neuaddau opsiwn i ddefnyddio'r system symlach o hysbysiadau digwyddiad dros dro ar gyfer digwyddiadau ad-hoc sy'n gymharol fach.

Mae ACRE yn gweithio'n glos gyda DCMS a LACoRS er mwyn sicrhau y gall neuaddau pentref fanteisio i'r eithaf ar y ddeddfwriaeth. Yn ogystal â hyn, mae ACRE yn gweithio gyda Sefydliad Tafarnwyr Prydain ac mae'n trefnu bod nifer o aelodau pwyllgorau rheoli neuaddau pentref yn cymryd rhan mewn cwrs treialu ar gyfer y drwydded bersonol newydd.

Hefyd bydd ACRE yn paratoi Taflen Wybodaeth ar gyfer pwyllgorau rheoli neuaddau unwaith bydd y ddeddfwriaeth mewn grym, gan annog cynghorwyr i weithio gyda swyddogion trwyddedu lleol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cytuno ynglŷn â sut bydd y Ddeddf yn gweithio ar eu rhan.

Gellir cael y daflen wybodaeth ar gyfer pwyllgorau rheoli neuaddau gan ACRE neu gan Gynghorwyr Neuaddau Pentref mewn Cynghorau Cymuned Gwledig lleol.

Dyddiadur Digwyddiadau

11 Ionawr
Digwyddiad Cymdeithas Rheolwyr Canol Tref 'Sefydlu Base ar gyfer BIDs' (Ardaloedd Gwell Busnes) yng Ngwesty'r Burlington, Birmingham [shaun.jones@atcm.org]

17 – 18 Ionawr
Richard Caborn yn siarad yng Nghynhadledd y Prif Dafarnwyr yng Ngwesty'r Dorchester [www.masterinnholders.co.uk]

Diwedd Ionawr
Lansio 'Cit Cerddoriaeth Fyw'. Dyddiad a man cyfarfod i'w gadarnhau [www.musiciansunion.org.uk]

31 Ionawr – 2 Chwefror
Uwchgynhadledd Sicrhau Cymunedau Cynaladwy yn y GMEX / MICC Manceinion [www.civictrust.org.uk]

12 – 13 Ebrill
Sioe Tai bwyta a Bar 2005 yn y GMEX ym Manceinion [www.restaurantandbar.co.uk]

Rhifyn nesaf – Rhagfyr 2004. I gael mwy o wybodaeth am Ddeddf Trwyddedu 2003 a sut bydd yn effeithio arnoch, ewch i'n gwefan ar www.culture.gov.uk. Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer erthyglau anfonwch e-bost: licensing.newsletter@culture.gsi.gov.uk.

Cynigir cynnwys y tudalennau hyn fel canllaw gwybodaeth yn unig. Nid ydynt yn ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith ac nid ydynt yn cynnwys cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Nid yw unrhyw ddatganiad ar y tudalennau hyn yn disodli, ehangu, diwygio neu newid mewn unrhyw ffordd ddarpariaethau statudol Deddf Trwyddedu 2003 nac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol.
Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon na'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon am unrhyw gamsyniad, esgeulustra neu ddatganiadau camarweiniol ar y tudalennau hyn, nac unrhyw safle y cyfeirir ato ar y tudalennau hyn. Dylid nodyn arbennig, er bod yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir, mae newidiadau yn y gyfraith a'r ffyrdd gweithredu yn golygu na ellir gwarantu bod y wybodaeth ar y tudalennau hyn yn gywir.